European Federation of National Organisations working with People who are Homeless

Datganiad Newyddion – 1 Hydref 2007
Ddirwrnod Cynefin y Byd

Embargo: 00.01 Dydd Llun, Hydref 1

Mae Gorfodi'r Hawl i Gartref yn bosibl
...gyda'r ewyllys gwleidyddol iawn!

Ar Ddiwrnod Cynefin y Byd, mae FEANTSA yn galw ar bob llywodraeth yn Ewrop i wneud yr hawl i gartref yn dreialadwy a sicrhau bod pawb yn yr Undeb Ewropeaidd yn gallu ceisio iawn cyfreithiol os ydynt yn cael eu hamddifadu o lwybr tuag at gartref digonol a diogel.

Mae nifer y bobl sy'n dioddef o gael eu hallgau o faes tai'n cynyddu'n gyflym mewn sawl gwlad yn yr UE. Mae prisiau tai a chostau sydd ynghlwm wrth dai yn cynyddu yn y rhan fwyaf o Ewrop, ac yn enwedig mewn ardaloedd lle mae swyddi newydd yn cael eu creu.

Mae gan ddigartrefedd yn Ewrop sawl wyneb gwahanol. Mae dynion a menywod, yn ogystal â phlant a phobl ifanc a phobl hŷn, mudwyr a lleiafrifoedd ethnig, gweithwyr a phobl ddi-waith yn dioddef o ddigartrefedd ac allgau o faes tai yn Ewrop.

Nid mater i bobl sy'n byw ar y stryd yn unig mo'r hawl i gartref. Mae **llawer o bobl yn dioddef ffurfiau cudd o ddigartrefedd**, megis gorboblogi, a thai ansafonol ac ansicr. Mae mynediad at gartref dechau yn rhag-amod ar gyfer ymarfer hawliau sylfaenol eraill ac ar gyfer cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas.

Mae sawl gwlad yn Ewrop wedi dangos, gyda digon o ewyllys gwleidyddol, bod gorfodi**'r hawl i gartref nid yn unig yn ymarferol ond hefyd yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd ac allgau o faes tai mewn ffordd gynaliadwy.**

"Er nad oes yr un wlad wedi gweithredu'r hawl dreialadwy i gartref yn llawn hyd yn hyn, mae gorfodi hawliau tai yn ffordd effeithiol o wthio polisïau digartrefedd yn eu blaen. Mae'n rhwymo llywodraethau i feddwl yn strategol a datblygu agwedd integredig a hirdymor," pwysleisia Freek Spinnewijn, Cyfarwyddwr FEANTSA.

Yn **Yr Alban**, mae awdurdodau cyhoeddus wedi gosod targed iddyn nhw eu hunain i ddarparu llety digonol ar gyfer pawb sy'n ddigartref o 2012 ymlaen.

Yng **Nghymru**, mae dogfen Llywodraeth y Cynulliad 'Cymru'n Un' yn addo mynd i'r afael â digartrefedd ym mhob cymuned yng Nghymru trwy gynhyrchu cynllun a cheisio pwerau newydd i "herio digartrefedd dros ddegawd".

Nod y gyfraith a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar yr hawl treialadwy i dai yn **Ffrainc** yw rhoi hawl i bobl geisio iawn cyfreithiol gerbron y tribiwnlys gweinyddol. Gall fynnu bod y Wladwriaeth yn cynnig cartref digonol i'r hawlydd.

Mae sawl Rhanbarth Annibynnol yn **Sbaen** wrthi ar hyn o bryd yn trafod ffyrdd o orfodi hawliau tai gyda grwpiau agored i niwed.

Gall gwledydd eraill ddysgu o'r profiadau hyn! !

European Federation of National Organisations working with People who are Homeless

Datganiad Newyddion – 1 Hydref 2007
Ddirwrnod Cynefin y Byd

Embargo: 00.01 Dydd Llun, Hydref 1

Nid delfryd wag mo gwneud yr hawl i gartref yn fater treialadwy ond ffordd effeithiol a deallus o weithio tuag ar roi terfyn ar ddigartrefedd yn yr Undeb Ewropeaidd.

Cyswllt ar lefel Ewropeaidd: Silke Paasche – FEANTSA
E-bost: Silke.paasche@feantsa.org
Ffôn: +32 (0)2 534 05 23